# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Allysgol Corneli Sger**

**Canolfan Blant Corneli**
**Greenfield Terrace**
**Gogledd Corneli**
**CF33 4LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/08/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Allysgol Corneli Sger wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar ôl ysgol a gofal yn ystod y gwyliau i hyd at 40 o blant rhwng 3 ac 11 oed. Caiff ei gynnal mewn ystafell yng Nghanolfan Blant Corneli ac mae hefyd yn defnyddio tiroedd yr ysgol gerllaw. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7.30am a 9.15am, a 3pm a 6pm yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 6.00pm. Alun Battrick yw'r person cofrestredig a Dorothy Lawson yw'r person â chyfrifoldeb.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael hwyl yn y gwasanaeth hwn ac mae ganddynt lais cryf. Gwrandewir arnynt ac maent yn gwneud dewisiadau yn hyderus. Maent yn cael gofal gan staff profiadol a gofalgar sy'n darparu gweithgareddau cyffrous iddynt. Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer plant, yn ddiogel ac yn cynnwys digon o adnoddau i ddatblygu sgiliau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau lefel dda o ofal i'r plant gan dîm ymrodeddedig o staff.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth yn un o dri chlwb gwyliau yng Nghymru i dreialu cynllun 'Newyn Gwyliau' Llywodraeth Cymru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas ag arwain a rheoli a'r amgylchedd. Mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad.

## 6. Llesiant — Da

### Crynodeb

Mae gan y plant lais, maent yn mynegi eu hunain ac maent yn gwneud dewisiadau yn hyderus. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau yn y gwasanaeth hwn. Ar y cyfan, mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd y staff yn gorfod atgoffa rhai o'r plant. Mae gan y plant sgiliau annibyniaeth da.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Gwelsom hyn pan ofynnwyd i'r plant beth roeddent am ei gael yn eu brechdanau amser cinio. Dewisodd y plant pa weithgareddau roeddent am ymgymryd â nhw a gwnaethant helpu eu hunain i adnoddau o'r cwpwrdd. Dewisodd rhai o'r plant beidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd yn ymwneud â gwyddoniaeth a gwnaethant barhau â'u chwarae. Ymgynghorir â'r plant cyn dechrau'r clwb gwyliau ynglŷn â'r math o weithgareddau yr hoffent eu gwneud a'r llefydd maent am ymweld â nhw. Gallai'r plant helpu eu hunain i ddŵr o'r tanc dŵr drwy gydol y sesiwn.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd y plant yn hapus i archwilio eu hamgylchedd. Roedd y staff yn gwerthfawrogi eu barn a'u dewisiadau. Aeth y plant at y staff yn hyderus os oeddent yn teimlo'n drist a gwelsom un plentyn yn cael cwtsh gan aelod o'r staff pan oedd yn drist.

Gofynnodd y plant i ni a'r staff yn hyderus am help pan oeddent ei angen. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i ni ddal y pen model er mwyn iddi allu brwsio'i gwallt. Roedd angen atgoffa'r plant i fod yn garedig i'w gilydd a pharchu teganau. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn gerdded dros y bwyd chwarae a oedd ar y llawr ac yn cael ei roi ar blatiau gan blentyn arall a ddywedodd, “you are stepping all over my food!”. Gwnaeth rhai o'r plant helpu i dacluso ar ddiwedd y sesiwn, ond dewisodd eraill i gerdded i ffwrdd.

Gwelwyd bod y plant yn llawn diddordeb a chymhelliant wrth chwarae a dysgu y rhan fwyaf o'r amser. Gwnaethant ddweud wrthym mai'r hyn roeddent yn mwynhau ei wneud fwyaf oedd mynd i chwarae yn yr awyr agored. Gwnaeth un plentyn chwarae mewn bocs cardfwrdd mawr am gyfnod a dywedodd wrthym ei fod yn hoffi chwarae yn y bocs. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn llawn cyffro ac yn chwerthin wrth iddynt reidio beiciau ar lwybrau, tra bod eraill yn chwarae gyda pheli amrywiol.

Gwnaeth y plant arllwys dŵr i gwpanau iddynt eu hunain ac i'w ffrindiau o jwg fawr. Gwnaethant helpu eu hunain i dywelion papur a sychu unrhyw ollyngiadau yn ystod amser cinio. Roedd y plant yn gallu defnyddio'r toiledau yn annibynnol, ac fe'u gwelsom yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl amseroedd prydau bwyd.

## 7. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn awyrgylch gofalgar. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gyson, ac yn fodelau rôl da gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'r staff yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae, gan ddarparu gweithgareddau ysgogol a chyffrous a diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gwybod â phwy i gysylltu o fewn yr asiantaethau perthnasol os oedd ganddynt bryderon. Roedd gan bron pob aelod o'r staff gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos eu bod wedi ymdrin â digwyddiadau'n briodol. Roedd yr arweinwyr yn darparu prydau, byrbrydau a diodydd iach drwy gydol y dydd gan eu bod yn rhan o gynllun 'Newyn Gwyliau'. Lluniwyd y fwydlen o ganllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru. Golchodd y staff eu dwylo cyn paratoi prydau a byrbrydau. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn sicrhau bod y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol, ni waeth beth fo'r tywydd.

Roedd y staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roeddent yn defnyddio technegau tynnu sylw yn llwyddiannus ac yn canmol y plant yn aml, er enghraifft, am dacluso neu gwblhau gweithgaredd. Gwnaethant anwybyddu unrhyw ymddygiad negyddol a ddangosodd y plant a pharhau'n ddigynnwrf. Roeddent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn garedig, ac yn annog y plant i fod yn gwrtais ac i ddweud 'thank you/diolch'.

Roedd y staff yn diwallu anghenion unigol gan eu bod yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn darparu awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol am eu bod yn gwybod manylion am y plant a rannwyd gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru ac yn gweithredu arnynt. Roedd y staff yn hybu datblygiad y plant drwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Er enghraifft, arbrofion gwyddonol, gweithgareddau coginio a theithiau allan. Rhoddodd y staff adborth ar lafar i'r rhieni wrth iddynt gasglu eu plant.

## 8. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r amgylchedd yn addas ac yn ddiogel. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg yn sicrhau bod y staff i gyd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

**Ein canfyddiadau**

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Roedd y brif fynedfa wedi ei chloi ac roedd y staff yn gadael ymwelwyr i mewn. Nid oedd unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored ac roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau gan yr arweinwyr yn llwyddiannus. Roedd rhaid i bob ymwelydd lofnodi wrth gyrraedd. Roedd y staff yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu hunain, yn ogystal â rhai'r plant yn ddyddiol. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi bob tri mis. Roedd pob darn o gyfarpar trydanol wedi cael prawf PAT ym mis Chwefror 2019. Gwelsom hefyd wiriadau gwasanaethu trydan a gwresogi. Nid oedd blanced diffoddwr tân yn yr ardal lle'r oedd byrbrydau'n cael eu paratoi, gan gynnwys tost.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd i'r plant sy'n addas ar eu cyfer.
Roedd y plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn sy'n addas i faint y plant yn y adeilad. Roedd y plant yn gallu cael gafael ar gyfarpar o'r cwpwrdd storio yn annibynnol. Roeddent hefyd yn gallu defnyddio ardal awyr agored fawr a oedd yn cynnwys cae rygbi, astroturf ac iard.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau y gall y plant fwynhau ystod o adnoddau chwarae a dysgu ysgogol o ansawdd da. Roedd digonedd o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a gemau yn lân, yn gweithio'n dda ac roeddent yn cael eu storio mewn bocsys wedi'u labelu ar lefel taldra'r plant. Hefyd, roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r clwb.

## 9. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd da. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael ac yn cael eu hadolygu'n gyson. Dengys hunanwerthusiad fod gwelliannau'n cael eu gwneud. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda ac maent yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol ac yn gweithio er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn hybu gwelliant a sicrhau canlyniadau da i'r plant. Er enghraifft, gwelsom fod y gweithlu yn hapus, yn gymwys ac yn cael cymorth da. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r arweinwyr wedi cydymffurfio â'r gofynion a'r argymhellion a wnaed mewn arolygiadau yn y gorffennol. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Ymgynghorwyd â'r plant fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer y clwb haf. Gwelsom yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal a oedd yn cynnwys barn y plant. Nid oedd y rhieni wedi ymateb i'r holiaduron a oedd ar gael iddynt, ac felly nid oedd eu barn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Roedd gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am y plant a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon, ac roedd eu hagwedd yn dyner ac yn garedig tuag at y plant. Gwnaethom siarad â'r staff a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth, ac roedd rhai wedi bod yno ers sawl blwyddyn. Cwblhawyd arfarniadau blynyddol ac roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau ategol cywir. Roedd ffeiliau bron pob aelod o'r staff yn cynnwys tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gwreiddiol. Dywedodd yr arweinwyr bod bron i hanner y staff yn siarad Cymraeg. Mae'r gweddill ar fin dechrau cwrs 'Cymraeg yn y gweithle ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar'

Mae'r rhieni'n cael gwybod am ddiwrnod eu plentyn drwy adborth ar lafar. Caiff ffotograffau o weithgareddau eu rhannu ar grŵp cyfryngau cymdeithasol, er nad yw lluniau o wynebau'r plant yn cael eu tynnu. Gwelsom aelod o'r staff yn rhoi adborth i riant wrth gasglu ei blentyn a gwelsom ei fod yn gadarnhaol ac yn garedig. Mae'r arweinwyr yn hybu cynnwys y plant yn y gymuned. Er enghraifft, teithiau cerdded i'r parc, teithiau i'r traeth ac i Barc Margam. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn manteisio ar lwybrau cerdded yn yr ardal.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

**Rheoliad 28** Addasrwydd gweithwyr
Atodlen 2, paragraff 2, adran 34 (l) (ii) hanes cyflogaeth lawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig digonol o unrhyw fylchau yng nghyflogaeth y person.
Y rheswm dros hyn oedd oherwydd nad oedd hanes cyflogaeth lawn wedi'i gofnodi yn ffeiliau'r staff.

Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â hynny.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell bod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- tynnu copïau o dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ffeiliau'r staff;
- sicrhau bod y flanced dân ar gael ac wedi'i gosod ar y wal
- anfon copi o'r datganiad o ddiben i AGC pryd bynnag y caiff ei adolygu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd un ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 6 Awst 2019 am gyfanswm o bedair awr
Gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y staff;
- siarad â'r arweinwyr, y staff a'r plant;
- edrych ar sampl o ddogfennaeth yn cynnwys cofrestrau'r staff a'r plant, ffeiliau'r staff, asesiadau risg, cofnodion damweiniau
- edrych ar y safle y tu mewn a'r tu allan.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Alun Battrick** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Dorothy Lawson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **40** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 9.15am a rhwng 3pm a 6pm yn ystod tymor yr ysgol. Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 6.00pm yn ystod gwyliau'r ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **20 Ionawr 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Awst 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/10/2019